OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 46 (Cy.10) (C.1)

# Y GYMRAEG, CYMRU

## Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2) 2012

*Gwnaed - - - - 9 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 150(5) a 156(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2) 2012.

**Cychwyn**

**2.** Daw darpariaethau canlynol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i rym ar 10 Ionawr 2012—

(a) adran 23(4);

(b) paragraffau 1, 5, 10 ac 11 o Atodlen 4, ac adran 23(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

9 Ionawr 2012

(**1**) 2011 mccc 1.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adrannau 150(5) a 156(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Mae'n dwyn i rym ddarpariaethau penodol yn y Mesur sy'n ymwneud â phenodi aelodau o Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg gan Weinidogion Cymru.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| adran 2(2) (yn rhannol) | 28 Mehefin 2011 | 2011/1586 (Cy. 182) |
| adran 2(3) (yn rhannol) | 28 Mehefin 2011 | 2011/1586 (Cy. 182) |
| adrannau 138 a 139 | 28 Mehefin 2011 | 2011/1586 (Cy. 182) |
| adran 146 (yn rhannol) | 28 Mehefin 2011 | 2011/1586 (Cy. 182) |
| Atodlen 1, paragraffau 3, 7, 8, 13 ac 21 | 28 Mehefin 2011 | 2011/1586 (Cy. 182) |
| Atodlen 12, paragraffau 1, 2 a 6 | 28 Mehefin 2011 | 2011/1586 (Cy. 182) |